| | |
|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | Canolfannau Strategol - Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni |
| **Arweinydd polisi yn nhîm y Tasglu** | John Howells |
| **Cam gweithredu – ar sail y camau a nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"** | Caiff saith hyb strategol eu creu ledled Cymoedd y De i fod yn ffocws i arian cyhoeddus a darparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. |

| Cerrig milltir | Cynnydd |
|---|---|
| Ionawr 2018 - Creu glasbrint datblygu ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn nodi prosiectau â blaenoriaeth yn y saith hyb strategol. | Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn yr hydref, aeth awdurdodau lleol ati, gan gysylltu â Llywodraeth Cymru, cymunedau lleol a busnesau, i arwain y gwaith o ddatblygu cynigion am brosiectau yn saith ardal y canolfannau a dechrau'r broses o greu fframwaith cliriach ar gyfer buddsoddi pellach.<br><br>Yna cynhaliwyd seminarau gyda rhanddeiliaid lleol rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr i sicrhau bod y cynlluniau yn rhai call ac i'w herio lle bo angen. Roedd y trafodaethau hyn yn adeiladol, a nodwyd y prosiectau hynny y gallai pawb ganolbwyntio arnynt yn y tymor byr. |
| Ebrill 2018 - Cytuno ar raglen fuddsoddi wedi'i chostio ar gyfer pob un o'r saith hyb strategol ar gyfer y cyfnod 2018-21. | Cynhaliwyd trafodaethau gydag arweinwyr polisi / deiliaid cyllidebau o fewn Llywodraeth Cymru i nodi rhestr fer o gynigion am brosiectau â blaenoriaeth y gellir eu hariannu drwy gyllidebau presennol. Trafodwyd y rhestr fer gydag awdurdodau lleol a chytunwyd ar y blaenoriaethau gweithredu.<br><br>Mae'r broses o graffu ar y prosiectau hyn yn parhau. Rydym wedi tynnu ynghyd bob un o adrannau'r llywodraeth sydd â diddordeb i lywio'r broses hon. Mae'r prosiectau yn cael eu hystyried, felly, ar sail eu heffaith economaidd a chymdeithasol ehangach, gan sicrhau hefyd eu bod yn cyd-fynd yn agosach ag amcanion y ffrydiau cyllid craidd. Mae yna oedi wedi bod o ran cytuno ar flaenoriaethau'r De-ddwyrain ar gyfer y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio newydd sydd, yn ei dro, wedi gohirio'r broses o ystyried achosion busnes.<br><br>Fel rhan o gytundeb Cyllideb 2018-19 gyda Phlaid Cymru, rydym yn ymchwilio i'r achos dros ganolfannau strategol ychwanegol. Mae ein cydweithwyr yn ein his-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi ystyried effaith nifer o ganolfannau arfaethedig, gan roi sylw i'r nifer o bobl a fyddai'n cael budd o ganolfan newydd, a hefyd yr amser teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>Mae swyddogion wedi bod yn cysylltu ag Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin sydd wedi datblygu cynigion ar gyfer canolfan yn Rhydaman ar sail model tasglu'r Cymoedd. |

| | |
|---|---|
| | Bydd seminar a gynhelir ar 5 Gorffennaf yn Rhydaman gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn dilyn yr un fformat â seminarau canolfannau Tasglu'r Cymoedd a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn mynd, ynghyd â nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru. |

**Risgiau**

Bydd angen i'r canolfannau ddarparu dull cydlynol o hyrwyddo datblygu economaidd yn hytrach na gweithio digyswllt. Bydd angen ystyried y cyfleoedd am gysylltiadau penodol a manteisio ar gryfderau'r economi leol.

I sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, bydd angen i'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer rhaglenni adfywio fel Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol fod yn gyson â blaenoriaethau'r canolfannau strategol. Mae'r negeseuon hyn wedi bod yn glir ac yn gyson o'r dechrau.

Mae angen ystyried creu mwy o swyddi yn y sector cyhoeddus a buddsoddi ym mhotensial y canolfannau i'w gwneud yn bosibl rhoi cynlluniau ar waith.

Trafnidiaeth oedd y pryder a godwyd fwyaf yn holl seminarau'r canolfannau. Bydd y metro yn helpu i sicrhau cysylltiadau ar draws y canolfannau. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau hyn wrth greu rhwydwaith trafnidiaeth cydlynol tymor byr.

Mae yna bryderon na fydd rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd yn cael effaith strategol ehangach o reidrwydd. Bydd yr angen i gydbwyso effaith economaidd ehangach â'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r gyllideb gyfyngedig yn parhau.

| | |
|---|---|
| **Adroddwyd gan:** | Nicola Forrest 18 Mehefin 2018 |